**TGAU**

3000N20-1A

A19-3000N20-1A

**DYDD GWENER, 8 TACHWEDD 2019 – BORE**

# CYMRAEG IAITH

**Uned 2**
**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

2 awr

## DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

3000N201A 01

© WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**

B B C Mewngofnodi Newyddion Tywydd Mwy Chwilio

S4C **Cyfrinachau'r Môr**

Hafan Penodau




## Darllediad diwethaf

S4C

Nos Sul
20:00

**Rhagor o benodau**

**BLAENOROL**

**Cyfrinachau'r Môr: Chwedlau**
**Cyfres 2018**

**Gweld holl benodau Cyfrinachau'r Môr**

## Llongau o dan y Môr

17 o ddyddiau ar ôl i wylio

**Cyfres 2018**

26 o funudau

Dysgwch am longddrylliadau a ddigwyddodd ar arfordir Cymru a thu hwnt.


**DARN DARLLEN 2**

# Môr o ffeithiau!

Mae
**5**
cefnfor ar y Ddaear:
Cefnfor yr Arctig
Cefnfor y De
Cefnfor yr Iwerydd
Cefnfor India
Y Cefnfor Tawel.

Mae
**71%**
o arwynebedd y Ddaear wedi ei orchuddio gan fôr.

Mae dros
**70%**
o holl ocsigen y Ddaear yn cael ei gynhyrchu gan blanhigion y môr.





Mae'r Cefnfor Tawel yn gorchuddio
**30%**
o arwynebedd y Ddaear.

Mae dros
**25,000**
o ynysoedd yn y Cefnfor Tawel.

Mae dros
**94%**
o holl rywogaethau'r Ddaear yn byw yn y môr.





Amcangyfrifir bod
**3,000,000**
o longddrylliadau ar waelod y môr a'r *Titanic* yw un o'r enwocaf.

Mae dros hanner arwynebedd y cefnforoedd yn
**3,000M**
o ddyfnder.

Mae'r gadwyn hiraf o fynyddoedd sydd ar y Ddaear o dan y môr a hyd y gadwyn yw
**65,000KM**.

**DARN DARLLEN 3**

At: dafyddm31@hotmail.co.uk
Testun: Triongl Bermuda

Helo Dafydd!

Sut wyt ti? Gest ti wyliau hanner tymor da? Wnes i fawr o ddim byd cyffrous. I ddweud y gwir − barod am sioc − roedd be’ wnes i yn yr ysgol heddiw yn fwy o hwyl! Wyt ti erioed wedi clywed am Driongl Bermuda? Pan ddywedodd Miss Evans mai dyna oedd ein testun nesaf, roeddwn i’n meddwl mai rhyw dasg fathemategol anodd arall oedd o ’mlaen i. Ond na, mae be’ glywais i heddiw’n anhygoel! Dw i hyd yn oed wedi gwneud mwy o waith ymchwil ar ôl dod adref − rhywbeth dw i BYTH yn ei wneud fel arfer! Barod am bregeth Bermuda!

Enw ar ardal rhwng Bermuda, Puerto Rico a Florida yw Triongl Bermuda ac mae ’na nifer fawr o longau pleser a llongau cargo yn hwylio yn yr ardal drwy’r amser. OND beth sy’n anhygoel yw bod llawer o longau ac awyrennau wedi diflannu yn yr ardal. Dechreuodd y straeon am ddiflaniadau heb esboniad yn yr ugeinfed ganrif. Diflannodd yr *USS Cyclops* a’i chriw o 309 o forwyr ar ôl gadael Barbados yn 1918. Diflannodd rhai o awyrennau bomio America yn yr ardal wrth hyfforddi dros y rhan yma o Gefnfor yr Iwerydd. Daeth rhywun o hyd i long oedd wedi goroesi 3 chorwynt yn 1955 ond doedd NEB ar fwrdd y llong… roedd pawb wedi DIFLANNU! Maen nhw’n dweud bod 300 o longau a 75 awyren wedi diflannu yn yr ardal. Does ryfedd mai enw arall ar y rhan yma o’r cefnfor yw Triongl y Diafol! Mae o’n driongl mawr iawn, cofia − tua 440,000 milltir sgwâr o fôr.

Y person cyntaf i adrodd am Driongl Bermuda oedd Christopher Columbus. Fe ddywedodd o yn ei ddyddiadur fod ei gwmpawd wedi stopio gweithio a’i fod wedi gweld pelen o dân yn yr awyr pan oedd o’n hwylio yn y rhan hon o’r byd. Waw! Mae llawer o bobl yn credu bod pethau goruwchnaturiol yn digwydd yno. Dw i’n meddwl yn bendant bod rhywbeth rhyfedd yn digwydd yno. Efallai fod UFOs yno neu fôr-ladron! Mae ’na rai pobl yn credu mai portwll neu ffenest i blanedau eraill sydd yno ac mai dyna lle mae’r holl longau ac awyrennau wedi diflannu − am anhygoel! Yn anffodus, mae ’na bobl eisiau difetha’r hwyl gan ddweud mai stormydd neu nam ar y cwmpawd sydd i gyfri am y diflaniadau. Iawn, dyma’r unig le ar wyneb daear lle mae’r cwmpawd yn gallu drysu ble mae’r gogledd a dw i’n deall y gallai hyn arwain at ddamweiniau, ond mae’n anodd esbonio dirgelion y *Mary Celeste* a’r *Ellen Austin* wedyn…

Llong fasnach yn cario alcohol oedd y *Mary Celeste* gyda’r capten, Benjamin Briggs, ei wraig a’i fabi a chriw o 7 o ddynion ar ei bwrdd. Fe ddaethon nhw o hyd iddi yn 1872 gyda neb arni ond roedd yr holl alcohol ac eiddo’r bobl a’r holl fwyd yn dal yno. Ddaethon nhw fyth o hyd i’r bobl. Os oeddet ti’n meddwl bod hynna’n rhyfedd, gwranda ar hyn! Yn 1881 daeth criw o hyd i long yr *Ellen Austin* ac fe gadwon nhw lygad arni am ddeuddydd cyn mynd ar ei bwrdd a darganfod bod popeth yn ei le ar y llong ond nad oedd yr un enaid byw arni. Rhoddwyd dynion ar fwrdd yr *Ellen Austin* wrth iddi gael ei thynnu tuag at Efrog Newydd gan y llong arall. Daeth storm a thorrodd yr *Ellen Austin* yn rhydd. Fe ddaethon nhw o hyd iddi am yr eilwaith a dyfala be’… roedd y criw a adawon nhw ar ei bwrdd wedi… DIFLANNU! Tria di esbonio hynna!

Wyt ti’n deall pam ’mod i wedi cyffroi gymaint am yr hanesion yma? Dw i’n edrych ymlaen at wneud y prosiect am Driongl y Diafol rŵan. Efallai y dysga i am fwy o ddirgelion…

Gad i mi wbod be’ wyt ti’n feddwl.

Tan tro nesa!

Ben

**DARN DARLLEN 4**

# Dinas Goll Atlantis



**Dyma hanes Atlantis yn ôl yr awdur Groegaidd, Plato. Mae'n debyg mai gwaith dychymyg Plato yw Atlantis ac roedd yn defnyddio'r lle i rannu negeseuon pwysig yn ei waith. Does dim olion o gwbl i brofi bod Atlantis yn lle oedd yn bodoli go iawn.**

Dros 11,000 o flynyddoedd yn ôl roedd ynys yng nghanol Cefnfor yr Iwerydd ac arni bobl bwerus. Roedd adnoddau naturiol arbennig y tir yn golygu bod y trigolion yn gyfoethog. Roedd yn ganolfan fasnach brysur a phwysig. Atlantis oedd enw'r ynys hon. Pan syrthiodd Poseidon, duw y môr, mewn cariad â Cleito, creodd gartref diogel ar ganol yr ynys iddi i'w gwarchod rhag drwg. Atlas oedd mab hynaf Poseidon a Cleito a daeth yn frenin ar Atlantis.

Roedd dau gynhaeaf yn Atlantis, yn hytrach nag un fel ym mhobman arall. Roedd yn bosibl cael bwyd o'r tir ddwywaith oherwydd y glaw yn y gaeaf ac yna'r dŵr o'r camlesi yn yr haf. Roedd pob math o anifeiliaid, yn cynnwys eliffantod, yn crwydro'r tir.

Am genedlaethau, roedd pobl Atlantis yn byw bywydau syml a daionus ond wedyn fe gawson nhw eu llygru gan bŵer a chwant. Pan welodd y duw, Zeus, pa mor farus oedd pobl Atlantis, daeth â'r duwiau eraill i gyd ynghyd i benderfynu ar gosb addas. Diflannodd Atlantis, a phawb oedd yn byw yno, o dan y dŵr am byth.

**DARN DARLLEN 5**

www.darganfodcymru.cymru

**DARGANFOD CYMRU**

**Dewch i ddarganfod rhyfeddodau Cymru. Chewch chi ddim gwyliau gwell!**

Chwilio

| Hafan | Lleoedd i aros | Lleoedd i ymweld â nhw | Gweithgareddau |
|---|---|---|---|

## Chwedlau'r Môr

Mae nifer fawr o chwedlau diddorol yn gysylltiedig â'r môr yng Nghymru. Dyma rai ohonynt…

### Cantre'r Gwaelod

Roedd Cantre'r Gwaelod ym Mae Ceredigion, tua 20 milltir o arfordir presennol gorllewin Cymru. Yn ôl pob sôn, roedd yno dir ffrwythlon oedd yn well na thiroedd eraill Cymru. Mae olion coed o dan y môr yn awgrymu ei fod yn lle oedd wedi bodoli go iawn. Gwyddno Garanhir oedd brenin Cantre'r Gwaelod a phenododd Seithennyn i warchod llifddorau'r cantre. Gwaith Seithennyn oedd cau'r llifddorau pan oedd y llanw'n dod i mewn. Un noson, cynhaliodd Gwyddno Garanhir barti mawreddog a gwahoddodd Seithennyn i'r parti hwnnw. Yn anffodus, meddwodd Seithennyn ac anghofiodd gau'r llifddorau. Boddwyd pawb ond Gwyddno, ei fab Elffin, ac ambell un arall o'i ddilynwyr.

### Pentref Tresaith

Cysylltir Tresaith â brenin o Iwerddon a wthiodd ei saith merch gecrus mewn cwch i'r môr heb hwyl na rhwyf. Fe'u cariwyd gan y cerrynt gan lanio ar draeth Tresaith lle syrthiodd y saith mewn cariad â ffermwyr lleol, gan feddiannu saith o ffermydd gorau'r ardal.

### Ina Sant

Mae eglwys fach Ina Sant rhwng Y Cei Bach a'r Cei Newydd wedi ei chysegru i Ina Sant, sef Brenin Wessex yn ystod y 7fed a'r 8fed ganrif. Rhoddodd y gorau i fod yn frenin a dilyn bywyd fel mynach. Mae hanes bod Ina wedi bod mewn llongddrylliad yn yr ardal hon tra oedd yn hwylio ar Fôr Iwerddon. Cafodd ei achub gan drigolion lleol ac adeiladodd yr eglwys i ddiolch iddynt.

### Chwedl Branwen

Dyma un o chwedlau mwyaf adnabyddus Cymru am briodas rhwng Branwen, chwaer Bendigeidfran a oedd yn frenin Ynys Prydain, a Matholwch brenin Iwerddon. Mae'r môr yn chwarae rhan bwysig yn y chwedl hon wrth i Bendigeidfran gerdded trwy'r môr o Gymru i Iwerddon er mwyn achub ei chwaer oedd yn cael ei chadw yng nghegin y llys gan ei gŵr. Roedd gwŷr Iwerddon yn crynu yn eu hesgidiau wrth iddyn nhw weld mynydd ac arno ddau lyn a chlogwyn yn symud trwy'r môr tuag atynt. Mae'n debyg mai pen Bendigeidfran, y cawr, oedd y mynydd a'i lygaid oedd y ddau lyn a'i drwyn oedd y clogwyn. Roedden nhw'n gweld y pen yn symud tuag atynt ond roedd ei gorff yn y môr. Doedd y môr ddim yn ddigon i rwystro Bendigeidfran!

# TUDALEN WAG